Estyn
Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
## Lefel y dilyniant:  Gwelliant sylweddol

## Ysgol Uwchradd Caergybi
## Caergybi
## Ynys Môn
## LL65 1NP

## Dyddiad yr ymweliad:  Ebrill 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y nod
The corporate standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr mewn Pobl | Aur

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Ray Owen | Arolygydd Cofnodol |
| Sue Halliwell | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Rhian Wyn Griffiths | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Ysgol Uwchradd Caergybi wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â’r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Chwefror 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu’r ysgol o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau a gwella perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn rhannol.

Yng nghyfnod allweddol 3, yn 2012, dangosodd berfformiad cyffredinol yr ysgol tuedd barhaus o wella, sydd bellach yn gosod yr ysgol yn y 50% uchaf ym mhedwar o’r pum dangosydd allweddol o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yr ysgol yn y pynciau di-graidd yn dangos gwelliant amlwg hefyd, gyda saith o’r naw pwnc bellach yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae’r dangosydd pwnc craidd ar gyfer 2012 yn dangos tuedd ar i fyny yn nifer y disgyblion sy’n cyflawni lefel 6+ ar gyfer Saesneg, Cymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae’r bwlch cyffredinol rhwng perfformiad bechgyn a merched ar gyfer y dangosydd pwnc craidd yn lleihau ar lefel 5+, ac erbyn hyn mae’r bwlch yn llai na chyfartaledd yr awdurdod lleol, y cyfartaledd cenedlaethol a chyfartaledd y teulu.

Yn 2012, yng nghyfnod allweddol 4, roedd gwelliant o dri ar ddeg pwynt canran yng nghyfran y ddisgyblion yn cyflawni’r trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg, o gymharu â chanlyniadau 2011. Fodd bynnag, mae’r canlyniadau’n dangos bod yr ysgol yn dal i berfformio islaw’r disgwyliadau wedi’u modelu, ac mae perfformiad yn parhau yn y 50% isaf ar gyfer y dangosydd hwn o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i gael prydau ysgol am ddim. Fe wnaeth canran y disgyblion yn cyflawni’r trothwy lefel 2 yn 2012 gynyddu o ddeg pwynt canran o gymharu â’r canlyniadau yn 2011. Fodd bynnag, roedd perfformiad yn parhau islaw cyfartaledd y teulu ac yn y 50% isaf o ysgolion ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Bu gostyngiad yng nghanran y disgyblion yn cyflawni’r trothwy lefel 1 yn 2012, gan gadw’r ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i gael prydau ysgol am ddim. Er mwyn sicrhau y gall pob disgybl gyflawni’r trothwy lefel 1, mae’r ysgol yn cofrestru pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 ar gyfer cymwysterau TGAU erbyn hyn. Mae’r sgôr pwyntiau wedi’i chapio yn dangos bod yr ysgol yn parhau i berfformio islaw’r disgwyliadau wedi’u modelu. Er i berfformiad wella yn 2012 o gymharu â chanlyniadau 2011, roedd yr ysgol yn parhau yn y 25% isaf o ysgolion â hawl debyg i gael prydau ysgol am ddim.

Mae’r bwlch rhwng y rhywiau o ran perfformiad bechgyn a merched yn parhau’n fwy na’r teulu. Fodd bynnag, mae’r bwlch rhwng disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim a’r disgyblion heb yr hawl honno wedi’i leihau, ac erbyn hyn mae’n agos at gyfartaledd y teulu ac yn llai na bwlch yr awdurdod lleol a’r bwlch cenedlaethol.

Mae'r ysgol bellach yn gweithredu system fanwl iawn a chadarn i olrhain perfformiad disgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd addas mewn perthynas â'u targedau unigol. Mae'r system olrhain newydd yn galluogi athrawon i fonitro perfformiad disgyblion yn fwy gofalus o lawer, a gellir grwpio disgyblion yn ôl anghenion dysgu ychwanegol, ar draws pob pwnc. Mae'r system adolygu hon yn rhoi syniad cynnar i adrannau hynny o'r disgyblion nad ydynt yn gweithio'n unol â'r targed. Erbyn hyn, mae'r ysgol yn gosod targedau mwy heriol i bob disgybl. Mae'n rhy gynnar eto, fodd bynnag, i asesu'n llawn effaith y broses olrhain a gosod targedau ar ddangosyddion perfformiad allweddol.

**Argymhelliad 2: Gwella'r cynnydd a wna disgyblion mewn medrau llythrennedd ar bob lefel gallu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Er yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cyflwyno cynllun manwl i wella medrau llythrennedd disgyblion ar draws yr ysgol. Bu'r ffocws cychwynnol ar ehangu a gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddatblygu'u medrau darllen. Caiff oedrannau disgyblion eu holrhain a'u monitro, a rhoddir cymorth i'r disgyblion â sgorau darllen sydd yn sylweddol islaw sgorau eu cyfoedion. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd mewn darllen yn dilyn rhaglenni ymyrraeth gofalus a phriodol. Mae'r ysgol wedi diwygio'r sesiynau tiwtorial i roi cymorth llythrennedd ychwanegol i bob disgybl. Mae hon yn fenter werthfawr. Fodd bynnag, mae rhywfaint o anghysondeb o hyd yn ansawdd y sesiynau hyn, ac nid yw ychydig o diwtoriaid yn defnyddio'r sesiynau hyn yn ddigon effeithiol i roi i'r disgyblion yr holl strategaethau y mae eu hangen arnynt i ddarllen ystod o ddeunyddiau, datgodio geiriau anodd a deall cyd-destun yr hyn y maent wedi'i ddarllen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymgysylltu'n dda â'u cyfoedion yn ystod sefyllfaoedd gweithio mewn parau a grŵp. Mae llawer ohonynt yn siarad yn glir ac yn gallu esbonio'u barnau pan fydd yr athrawon yn eu holi. Mae'r hyder gan lawer o ddisgyblion i ymhelaethu ar eu syniadau, a gallant gyfiawnhau eu barnau trwy ddefnyddio gwybodaeth o ystod o destunau i gyfnewid syniadau a datblygu'u meddwl a'u dealltwriaeth. Mewn llawer o wersi, mae'r disgyblion yn gwneud defnydd da o dermau arbenigol ac yn eu defnyddio'n briodol yn y cyd-destun cywir. Hefyd, mae'r athrawon yn atgoffa disgyblion o bwysigrwydd defnyddio iaith dechnegol yn eu hysgrifennu.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd o ran datblygu'u medrau darllen ac ysgrifennu. Mae medrau darllen ar lefel uwch gan y rhan fwyaf o ddisgyblion, fel dadansoddi testunau, dod i gasgliadau a llunio casgliadau i ymdopi â gofynion darllen mewn gwersi. Mae'r hyder gan lawer o ddisgyblion i ddefnyddio ystod o strategaethau i ddethol gwybodaeth a defnyddio dyfyniadau i gefnogi'u barn. Mewn ychydig o wersi, nid yw'r testunau'n ddigon ymestynnol, ac nid yw disgyblion yn cael eu hatgoffa i ddefnyddio'r strategaethau gwerthfawr hyn i gefnogi'u dysgu. Yn y gwersi hyn nid oes disgwyliadau ddigon uchel gan yr athrawon o'r disgyblion, ac nid yw gwersi'n cael eu cynllunio'n llwyddiannus i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu cywirdeb, sillafu ac atalnodi mewn gwaith ysgrifenedig. Gwneir defnydd effeithiol o fanciau geiriau mewn ychydig o wersi i ehangu geirfa'r disgyblion. Mewn llawer o bynciau, mae disgyblion yn ysgrifennu mewn amryw o ffurfiau ac arddulliau, ac mae eu gwaith yn dangos dealltwriaeth gynyddol o nodweddion mathau gwahanol o ysgrifennu. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu tasgau ysgrifennu estynedig yn dda iawn, gyda gafael gadarn ar gyd-destun, diben a strwythur. Mewn gwersi effeithiol iawn, mae'r disgyblion yn trafod eu gwaith ac yn ailddrafftio er mwyn gwella safon y cynnwys a'r iaith.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod pob gwers yn darparu lefel briodol o her i fodloni anghenion disgyblion o wahanol alluoedd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.
Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r cyflymder yn briodol ac mae bron yr holl ddisgyblion yn ymddiddori mewn amrywiaeth dda o dasgau sy'n eu herio i ddatblygu eu gwybodaeth bynciol a gwella eu medrau llythrennedd a gwneud cynnydd da. Yn y gwersi hyn, mae'r gweithgareddau addysgu a dysgu yn cydweddu'n dda i ddiwallu anghenion pob disgybl. Defnyddia'r mwyafrif o athrawon dechnegau holi sy'n herio disgyblion i ddatblygu'u dealltwriaeth a'u meddwl. Cafodd pob aelod o'r staff addysgu hyfforddiant i ddatblygu'u dealltwriaeth o sut y gallant ddiwallu anghenion disgyblion unigol yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, nid yw arfarnu addysgu a dysgu yn canolbwyntio digon eto ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr. O ganlyniad, nid yw strategaethau ac arferion yn cael effaith gadarnhaol gyson ar draws pob pwnc. Mewn ychydig o wersi, nid oes disgwyliadau digon uchel gan yr athrawon o'r disgyblion, ac nid yw cyflymder gwersi a gweithgareddau dysgu yn herio disgyblion o bob lefel gallu.

Mae disgwyliadau uwch o'u disgyblion gan fwyafrif yr athrawon. Mae'r athrawon hyn yn datblygu'u medrau, yn annog dysgwyr i ymddiddori mewn tasgau darllen, a bu gwelliant yn ansawdd ysgrifennu estynedig.

At ei gilydd, erbyn hyn, mae disgyblion yn elwa ar adborth ysgrifenedig gwell gan yr athrawon yn eu llyfrau gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn rhoi sylwadau ysgrifenedig adeiladol ac arweiniad i'r disgyblion ynglŷn â sut y gallant wella ansawdd eu gwaith. Fodd bynnag, mae rhywfaint o anghysondeb yn adborth yr athrawon i ddisgyblion o fewn adrannau ac ar draws adrannau. Mewn ychydig o achosion, nid yw'r athrawon yn rhoi adborth digon manwl i'r disgyblion a fydd yn eu galluogi i wella'u perfformiad yn y dyfodol.

**Argymhelliad 4: Gwella presenoldeb a lleihau cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi datblygu ystod o strategaethau effeithiol i leihau nifer absenoldebau anawdurdodedig disgyblion ac i wella presenoldeb. Mae uwch reolwyr ac arweinwyr canol yn gwneud defnydd mwy effeithiol o ddata a gwybodaeth arall i sicrhau gwelliant. Mae'r arweinwyr hefyd wedi cryfhau'r ffordd y maent yn rhoi

cymorth wedi'i dargedu. Er enghraifft, defnyddio anogwr dysgu, staff cynhwysiant, swyddogion cymorth bugeiliol, swyddogion lles addysg a staff yr ysgol i fonitro ac ymyrryd i gefnogi unigolion. Mae'r arweinwyr wedi rhoi cynllun strategol manwl ar waith i wella presenoldeb, ynghyd â system olrhain gynhwysfawr. Mae hyn wedi arwain at dargedu mwy systematig ar gyfer ystod o grwpiau ac unigolion. O ganlyniad, mae presenoldeb yn gwella. Yn 2012, dangosodd y cyfraddau presenoldeb welliant o ddau bwynt canran, er bod hyn wedi gosod yr ysgol islaw'r disgwyliad wedi'i fodelu o hyd, ac yn y 50% isaf o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae data heb ei ddilysu ar gyfer y flwyddyn academaidd hon yn dangos gwelliant pellach o un a hanner pwynt canran.

Mae'r ysgol wedi lleihau'n sylweddol nifer y diwrnodau a gollir o ganlyniad i waharddiadau cyfnod penodol. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol eleni. Mae adolygu polisi ymddygiad yr ysgol wedi cryfhau'r cymorth sydd ar gael i staff a disgyblion, ac mae hyn wedi golygu mai fel cam olaf yn unig y defnyddir gwahardd.

**Argymhelliad 5: Gwella ansawdd a chysondeb y marcio a'r adroddiadau diwedd blwyddyn i rieni**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae ansawdd a chysondeb y marcio wedi gwella ac mae tystiolaeth glir fod hyn yn gynnydd da ers yr arolygiad craidd. Mae llawer o athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi adborth defnyddiol. Maent yn rhoi arweiniad clir i'r disgyblion ar sut i wella gwaith. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd ysgrifennu estynedig yn benodol. Mae'r disgyblion yn ailddrafftio gwaith, gan ystyried cyngor a sylwadau i gynhyrchu gwaith o ansawdd da. Mae mwy o sylw'n cael ei roi i ddatblygu medrau llythrennedd trwy farcio a sylw i sillafu, atalnodi a gramadeg.

Fodd bynnag, mae anghysondeb yn y marcio o hyd o fewn ac ar draws meysydd cyfadran. Mewn ychydig o achosion mae diben marcio ac asesu yn aneglur ac nid yw disgyblion yn cael adborth defnyddiol ar eu gwaith a thargedau penodol ar gyfer gwella. Nid yw'r athrawon hyn yn gwirio'n gyson i weld bod disgyblion yn gweithredu ar eu sylwadau, i sicrhau bod camgymeriadau'n cael eu cywiro.

Mae adroddiadau diwedd blwyddyn bellach yn rhoi arweiniad clir a chryno i rieni a disgyblion ar sut i wella. Mae ychydig o feysydd pwnc yn rhoi adborth manwl iawn, ond mae'r adborth lleiaf manwl hyd yn oed yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth. Yn gyffredinol, mae trefniadau sicrhau ansawdd effeithiol o ran sicrhau cysondeb yn ansawdd adroddiadau.

**Argymhelliad 6: Gwella rôl ac atebolrwydd rheolwyr canol gyda ffocws cryfach ar adolygu perfformiad a chodi safonau**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Yn ddiweddar, aeth yr uwch dîm arweinyddiaeth ati i addasu a rhoi gwedd gliriach ar rolau a chyfrifoldebau arweinwyr canol i'w gwneud yn fwy atebol am berfformiad a safonau. Erbyn hyn mae disgwyliad clir fod arweinwyr canol, ar draws pob adran, yn

ymgymryd â phroses drylwyr o fonitro, arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella. Mae'n rhaid i'r gwaith gwella perthnasol a wneir sicrhau y caiff pob targed ei fodloni. Mae'r system olrhain disgyblion yn rhan hanfodol o'r broses hon ac mae'n ymsefydlu'n dda yn arfer y rhan fwyaf o'r arweinwyr canol.

Mae cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol perthnasol yn cael eu darparu i arweinwyr canol erbyn hyn, drwy ymgymryd ag arsylwadau o wersi a hefyd cysylltu â rheolwyr canol eraill yn yr ysgol, ac ar brydiau, gydag arweinwyr canol mewn ysgolion eraill. Un flaenoriaeth bresennol i'r ysgol yw galluogi'r arweinwyr canol sy'n gyfrifol am y pynciau craidd i gyfarfod yn rheolaidd i ystyried cynnydd disgyblion unigol ar draws y pynciau craidd. Mae'r wybodaeth hon a rennir yn sicrhau erbyn hyn fod pob disgybl sy'n tanberfformio yn cael ei herio a'i gynorthwyo'n briodol.

Mae cyfarfodydd cyswllt rheolaidd yn cael eu cynnal hefyd rhwng y tîm uwch arweinwyr a'r arweinwyr canol i gefnogi a herio arweinwyr i sicrhau mynd i'r afael yn briodol â phob targed perthnasol. Y blaenoriaethau yn y cynlluniau datblygu adrannol, a chynllun datblygu'r ysgol, sy'n pennu'r agenda ar gyfer y cyfarfodydd hyn. Mae'r broses hon yn cyfrannu'n dda at fwy o gysondeb yn y ffordd y mae arweinwyr canol yn adolygu perfformiad disgyblion ac yn codi safonau. Fodd bynnag, mae lleiafrif o arweinwyr canol o hyd nad ydynt yn canolbwyntio digon ar ddeilliannau disgyblion a chynnydd mewn gwersi.

**Argymhelliad 7: Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu a chyd-addoli dyddiol yn bodloni gofynion yn llawn**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Ers yr arolygiad, mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r pryderon penodol ynghylch diogelu a dynnwyd i sylw'r ysgol yn ystod yr arolygiad. Mae'r camau yn cynnwys:

- cyflwyno rhaglen reolaidd o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;
- adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau diogelu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion statudol; a
- sicrhau bod pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant priodol a diweddar ynglŷn ag amddiffyn plant.

Mae'r trefniadau diogelu presennol yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri unrhyw bryder.

Erbyn hyn, mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer cyd-addoli. Mae gweithredoedd dyddiol o addoli yn bodloni'r gofynion statudol, ac mae rhaglen ddiwygiedig o addoli ar y cyd wedi'i rhoi ar waith, lle bydd arweinwyr yr eglwys leol yn cyflwyno gwasanaethau rheolaidd i gyfnodau allweddol, gwasanaethau ysgol a'r rhaglen 'testun meddwl ar gyfer yr wythnos' yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio a datblygu'n ysbrydol.